Dirgelwch y croesau: Y croesgadwyr ym meddrod sanctaidd Caersalem

Yr Athro Moshe Caine: Darlithydd a Chadeirydd Adrannol, a Doron Altaratz: Darlithydd, Yr Adran Cyfathrebu Ffotograffig, Coleg Academaidd Hadassah, Caersalem

Mae'r papur hwn yn disgrifio'r sail resymegol, yr heriau a'r datrysiadau delweddu a ddefnyddiwyd mewn ymgais i ddatgelu hen hen ddirgelwch. Y nod oedd awgrymu ateb i ystyr y cannoedd o groesau, symbolau a thestunau sydd wedi'u harysgrifio ar furiau Capel Santes Helena ac y tu ôl i'r allor, yn Eglwys y Beddrod Sanctaidd yng Nghaersalem, a briodolir i Groesgadwyr y 12fed ganrif a'r 13eg ganrif.

Rydym wedi defnyddio amrywiaeth o dechnolegau delweddu ffotograffig a ffotogrametrig, ynghyd ag ymchwil archaeolegol traddodiadol, mewn ymgais i ddogfennu cymaint o ddata empirig â phosibl tra oedd gwaith adnewyddu'n cael ei wneud ac yn cynnig cyfle am gyfnod byr i gofnodi'r safle.

Defnyddiwyd tair prif dechneg ddelweddu: ffotograffiaeth gydraniad-uchel banoramig 2D, ffotogrametreg 3D, a Delweddu Trawsffurfiad Adlewyrchiant (RTI).

Mae'r data a gasglwyd yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd mewn ymgais i sefydlu cronoleg, teipoleg a stratigraffeg yr endoriadau. Gobeithiwn y bydd hyn o gymorth i gadarnhau, cywiro neu wrthod yr esboniadau traddodiadol sy'n priodoli'r graffiti i gyfnod y Croesgadwyr.